# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
## a gynhaliwyd ar y 3ydd o Dachwedd 2015
## am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Ada Evans, Meirion Davies, , Dylan Edwards, Caredig Jones, Richard Davies, Rowland Jones a Dewi Rattray.**

**YMDDIHEURIADAU: Cyng. Meic Francis & John Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau ar y noson hydrefol gan y Cadeirydd Ann Tudor.

**15/875**
Darllenwyd cofnodion cyfarfod Miss Hydref gan y Clerc a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Ada Evans ac fe eiliwyd gan y Cyng. Richard Davies.

**15/876 - MATERION YN CODI**

1. E-bost oddi wrth A Glanville ynglŷn â Chae'r ficerdy. Mi fydd ar gael i gwrdd â'r Cyngor ar y 26ain o Dachwedd. Fe wnaeth y Cynghorwyr cadarnhau fod y dyddiad yn gyfleus. Phasiwyd i'r clerc cysylltu Mr Glanville i gadarnhau hyn.
2. Yn anffodus, ar ôl cyflwyno dyddiadau i'r adran Gynllunio'r Cyngor Sir, nid oes ymateb wedi dod ynglŷn â chyfarfod ar safle Cae'r Ficerdy. Phaswyd i'r clerc cysylltu â'r cyngor unwaith eto i godi'r pwnc yma.
3. Unwaith eto, ni does unrhyw ymateb wedi eu derbyn oddi wrth Adran Priffyrdd Cyngor Ceredigion ynglŷn â'r dŵr wrth ymyl cornel Gwel Y Môr. Gofynnwyd y cyngor for y Clerc yn ysgrifennu eto i ofyn y cyngor rhoi blaenoriaeth i'r sefyllfa yma gan fod y casgliad o ddŵr yn beryglus, yn enwedig os fydd yn rhewi dros nos.
4. Fe wnaeth Tom Edwards cadarnhau fod angen rhoi 'Safety Switch' newydd ar gyfer Coeden Nadolig y Pentref, y gost am hyn fydd tua £250. Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytûn. Cytunwyd gan y Cyng. Dylan Edwards ac eiliwyd gan Cyng Richard Davies. Fydd hefyd angen archebu goleuadau newydd ar gyfer y goeden eleni. Bydd y pris yn dibynnu ar maint y goeden, fath o oleuadau a.y.b. Penderfynnwyd ar fanylion y golau, ond ofynnwyd fod y clerc yn ofyn am bris yn gyntaf cyn archebu. Phasiwyd i'r Cyng.Caredig Jones i archebu'r goeden erbyn y Tachwedd 29.
5. Nid yw'r Cyngor Datblygu wedi cwrdd i drafod y posibilrwydd o agor y toiled yn ystafell newid y canolfan ar gyfer y cyhoedd. Maent yn gobeithio cwrdd cyn ein cyfarfod nesaf.
6. Unwaith eto, tynnwyd sylw'r Cyngor gan aelod o'r cyhoedd, bod y goleuadau ar waelod stad Tai Gwarfelin yn wael iawn. Hyd yn hyn, nid oes ymateb wedi eu derbyn oddi wrth Dai Ceredigion. Phaswyd i'r clerc cysylltu unwaith eto.

**15/877 - LLYTHYRON**

1. Bwletin Rheoli Adnoddai Naturiol oddiwrth Llywodraeth Cymru
2. Ateb oddi wrth Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion ynglŷn â'r ffordd Trawscoed. Yn anffodus, nid oes unrhyw newid i'r llwybrau sy'n cael triniaeth cyn-rhybuddiol ar gyfer y cyfnod 2015-2016 fel rhan o'r gwasanaeth gaeaf.
3. Llythyr oddi wrth Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
4. Llythyr oddi wrth GIG Cymru a manylion ynglŷn â Grwp Prosiect Trawsnewid Iechyd Meddwl newydd.
5. Ebost oddi wrth swyddog adran wastraff Cyngor Sir Ceredigion ar y pwnc ' Diwrnod Ailgylch Eitemau Trdanol Bychan'. Fe godwyd y posibilrwydd o gynnal ddiwrnod tebyg yn y pentref. Roedd y Cynghorwyr yn gytûn fydd hwn yn syniad da. Phasiwyd i'r clerc cysylltu yn ôl a'r cyngor i wneud ymholiadau pellach.
6. Ffurflen oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion i lenwi ar gyfer Gwasanaethau ar Dir Claddu ac mewn Mynwentau 2014/2015.
7. Amserlen oddi wrth GIG Cymru a manylion digwyddiadau sydd ar y gweill ar draws y Siroedd.
8. Nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru, megis…. Groundwork Funding Opportunity through Tesco Carrier Bag Levy, Penodi Ymddiriedolwr dros Gymru, Papur Gwyrdd yn ofyn am farn wasanaethau iechyd yng Nghymru a.y.b.

**15/878 – ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Hydref; £113.47. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Dewi Rattray ac eiliwyd gan y Cyng Richard Davies.
2. PAYE ar gyfer Miss Awst o £28.20, Miss Medi £28.40 a Miss Hydref £28.40. = cyfanswm o £85.00 am y tair Miss. Cynigiwyd i'w thalu gan y Cyng.Meirion Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Roland Jones.

**15/879 – CYNLLUNIO**

Cais A150694 – Installation of a 36.6m Wind Turbine, including control kiosk, crane pad and new access track with turning head.
Location: Pen Y Caerau, Rhos y Garth, Llanilar

Penderfynnwyd cefnogi'r cais yma. Fe wnaeth y Cynhorydd Rowland Jones datgan diddordeb.

**15/880 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Tynnwyd sylw gan y Cyng.Richard Davies a'r cyflwr gwael ffordd Castle Hill. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu at adran Priffyrdd y Cyngor Sir.
2. Dywedodd y Cyng.Ada Evans fod yna dwll yn y ffordd at bwys Glanmad, gall achosi difrod i olwynion ceir a.y.b. Eto, ofynnwyd i'r clerc cysylltu â'r adran Priffyrdd.
3. Fe gynghorodd y Cyng.Meirion Davies for dwr dal yn casglu ar y ffordd wrth ymyl Cefnllwynpiod a hefyd wrth ymyl Abernant oherwydd pibell wedi ei flocio. Ofynnwyd fod y cyngor sir yn clirio'r rhain.

4. Tynnwyd sylw eto at gyflwr y ffens ar y llwybr feicio. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu at y cyngor i drafod hyn yn bellach.
5. Dywedodd y Cyng Ann Tudor fod diffyg olau yn y pentref wrth ymyl croesfan siop y pentref. Ma hyn ân achosi beryg i'r cyhoedd. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu at y cyngor sir ynglŷn â hyn.

Gorffennwyd y cyfarfod am 9.45yh